# Arolwg o Aelodau RCN Cymru 2020

## *Beth ddylai Llywodraeth nesaf Cymru wneud?*

# Cyflwyniad

Ym mis Mai 2021, bydd poblogaeth Cymru yn ethol Llywodraeth newydd ar gyfer Cymru.  Bydd yn gyfrifol am iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, ynghyd â'r holl faterion eraill nad ydyn yn cael eu cadw yn San Steffan.

Mewn paratoad, mae Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru wedi cynnal arolwg o'i aelodau ym mis Mawrth 2020 ac o fis Medi tan fis Tachwedd 2020.

Staff nyrsio yw wyneb gofal y claf. Yn ogystal, nhw yw'r grŵp galwedigaethol mwyaf mewn iechyd sy'n rhoi darlun unigryw iddyn nhw am ofal iechyd yng Nghymru, o ysbytai trefol at ysbytai i gymunedau gwledig, o garchardai i hosbisau.

Mae hyn yn golygu bod yr hyn sy'n effeithio ar nyrsio â sgil-effeithiau ymhobman lle darperir gofal iechyd.

Felly, beth yw'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r proffesiwn nyrsio?  Beth mae Cymru yn wneud yn iawn?  Pa newidiadau sydd fwyaf eu hangen ar frys?  A yw'r atebion yr un fath drwy Gymru, neu a ydyn nhw'n amrywio?

Gwnaethom holi beth oedd aelodau RCN Cymru yn ei weld fel y blaenoriaethau mwyaf ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru, ar gyfer y proffesiwn nyrsio ei hun ac ar gyfer iechyd a llesiant yng Nghymru. Dyma beth yr oedden nhw yn ei ddweud.

## Mae ein haelodau yn meddwl…

1 mai cartrefi gofal yw'r targed â'r brys mwyaf ar gyfer ymestyn deddfwriaeth **staffio diogel**.

2 dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru weithio er mwyn deall a hyrwyddo **swyddogaeth nyrsio** wrth ymdrin â COVID-19.

3 mae Cymru angen **addysgu** mwy o nyrsys – a gweithio'n galetach i'w **cadw** nhw.

4 er mwyn cadw ei nyrsys, mae **GIG Cymru** angen gweithlu mwy, sy'n cael ei dalu yn well.

5 er mwyn cadw nyrsys mewn **cartrefi gofal**, mae cyflog uwch yn bwysig, ond mae parch yr un mor bwysig hefyd.

6 mae'n rhaid i fwrsariaeth y GIG fod yn rhan o unrhyw gynllun i **gynyddu'r gweithlu**, ochr yn ochr â chyflog uwch ac ehangu'r mynediad at radd nyrsio.

7 dylai hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gweithgareddau corfforol fod y prif flaenoriaethau **iechyd cyhoeddus** ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru.

# Cartrefi gofal yw'r targed â'r brys mwyaf ar gyfer ymestyn deddfwriaeth **staffio diogel**.

Gwyddom fod lefelau isel o ran staff nyrsio yn gysylltiedig â phob math o risgiau i gleifion. Mae ymchwil wedi dangos fod wardiau sy'n gweithredu gyda lefelau isel o staff nyrsio yn gallu cynyddu cyfraddau marwolaeth o hyd at 26% o'u cymharu â wardiau gyda mwy o staff.[i]

Felly, efallai gall ymddangos fel syndod, hyd at ychydig flynyddoedd yn ôl, nad oedd unrhyw ddarparwr gofal yn y DU o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gynnal lefelau digonol o ran staff nyrsio.

Newidiodd pethau yng Nghymru pan ddaeth **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016** i rym. O dan **Adran 25B** o'r Ddeddf honno, mae gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddyletswydd i gyfrifo a chadw lefelau staff nyrsio yn unol â methodoleg arbennig.

Ar hyn o bryd, ymdrin â rhai lleoliadau cleifion mewnol ar gyfer oedolion yn unig y mae Adran 25B.




Heb ddigon o nyrsys a staff nyrsio, mae pawb yn dioddef.

Mae ymchwil yn dangos y gall lefelau staff nyrsio isel gynyddu marwoldeb hyd at 26%, ac achosi nyrsys i ddigalonni, gorboeni a mynd yn sâl, a throi eu cefnau ar y GIG.

Mae ymchwil yn dangos bod lefelau staff nyrsio diogel ac effeithiol yn lleihau risgiau.

Yn 2016, wedi i flynyddoedd o ymgyrchu gan yr RCN, cyflwynodd Cymru deddf staff nyrsio diogel.

Mae Adran 25B y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn dweud wrth Fyrddau Iechyd sut i gyfrifo a chynnal lefelau staffio diogel mewn wardiau llawdriniaethol a meddygol aciwt oedolion.

Ond mae angen lefelau staff nyrsio diogel ym mhobman!

Yn etholiadau'r Senedd, rhaid i bob plaid ymrwymo i ymestyn Adran 25B. Pleidleisiwch dros nyrsio. Mae nyrsio yn arbed bywydau.

Bydd wardiau cleifion mewnol ar gyfer plant yn cael eu cynnwys erbyn mis Hydref 2021.

Gwnaethom holi aelodau pa leoliad oedd y sector pwysicaf ar gyfer Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i ymestyn ato.

## Mae tros draean (37% o ymatebwyr) yn dweud mai **cartrefi gofal ddylai fod nesaf**.

Mae nyrsio mewn cartref gofal yn enghraifft o *nyrsio cymunedol*, term sy'n ymdrin â'r holl ofal nyrsio ar wahân i'r hyn a roddir mewn ysbyty. Mae dros un rhan o bump (23%) o ymatebwyr yn meddwl mai nyrsio cymunedol yw'r sector pwysicaf ar gyfer staffio diogel, tra bod 16% yn nodi mai ysbytai cymunedol yw'r pwysicaf.

## Gyda'i gilydd, mae dros dri chwarter yn **bryderus** ynglŷn â staffio diogel yn y gymuned a chartrefi gofal.

Er gwaethaf bod y ddau wedi dioddef diffyg staffio difrifol, mae nyrsys mewn cartrefi gofal a nyrsys cymunedol (er enghraifft, timau Nyrsys Ardal) yn cefnogi ei gilydd i ofalu am gleifion a fyddai fel arall yn gorfod mynd i'r ysbyty.


Ni fu hyn erioed mor wir nag yn ystod pandemig y COVID-19, lle mae prinder staff wedi cael ei waethygu gan absenoldeb staff wrth iddyn nhw hunanynysu er mwyn diogelu eu cleifion a'u cydweithwyr.

Yn amlwg, mae staffio diogel y tu allan i leoliadau ysbyty yn brif flaenoriaeth i staff nyrsio yng Nghymru.

### Gwahaniaethau Rhanbarthol

Yn y rhan fwyaf o ranbarthau, roedd mwy o bryder ynglŷn â staffio diogel mewn cartrefi gofal. Nid oedd hyn yn wir yng **Ngogledd Cymru**. Yma, roedd pryder ynglŷn â chartrefi gofal a wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl bron yn gyfartal, ar 30.0% a 28.9% yn ôl eu trefn.

Gellid cysylltu hyn ag achos proffil uchel o'r cyn-ward iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn sef Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd yn Sir Ddinbych. Roedd lefelau isel y staff nyrsio yn cael eu hystyried yn ffactor a oedd yn cyfrannu yn yr achos.



2

# Dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru weithio er mwyn deall a hyrwyddo **swyddogaeth nyrsio** wrth ymdrin â COVID-19

Ychydig o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn cofio unrhyw beth tebyg i bandemig y COVID-19.  Bu eu hymrwymiad i ddiogelwch cleifion, fel eu harweinyddiaeth a'u proffesiynoldeb, heb ei ail.

Eto i gyd, os ydych chi ar y cyfryngau cymdeithasol, efallai eich bod wedi sylwi ar batrwm: nyrsys yn rhwystredig wrth weld eu proffesiwn yn cael ei drafod, ar y newyddion ac yn y cynadleddau i'r wasg, heb weld unrhyw nyrs!

### Mewn gwirionedd, bu angen cyngor nyrsio ar lefelau uchaf y llywodraeth – ond **nid yw'r rhan fwyaf o ymatebwyr (92%) yn gweld hyn yn cael ei adlewyrchu** yn natganiadau'r Llywodraeth a chynadleddau'r wasg.

Er mwyn gwella ysbryd y staff nyrsio sy'n gweithio yn galed, mae'n hanfodol bod y proffesiwn nyrsio a'i gyngor yn weladwy mewn datganiadau gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru, a'u bod yn gyfwerth â chydweithwyr meddygol.

Gwnaethom holi ein haelodau sut orau ddylai Llywodraeth Cymru baratoi ar gyfer tonnau o bandemig y COVID-19 yn y dyfodol.

### Mae bron i hanner (48%) yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru a GIG Cymru **weithio ar eu dealltwriaeth** o reidrwydd nyrsio wrth ymdrin â COVID-19.

Cred chwarter (25%) y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn rhaglen cyfarpar diogelwch personol (CDP) gynhwysfawr, ar ôl y profiad yn ystod dyddiau cynnar y pandemig pan gododd aelodau RCN bryderon ynglŷn ag anhawster cael CDP a oedd yn aml yn brin.

3

# Mae Cymru angen **addysgu** mwy o nyrsys – a gweithio'n galetach i'w **cadw** nhw.

Mae Cymru angen mwy o nyrsys ar frys.

Diolch i ofal iechyd ardderchog, mae mwy o bobl yng Nghymru yn byw yn hirach.  Er hynny, ychydig ohonom sy'n parhau yn berffaith iach am byth.

Mae nifer y cleifion sy'n cael eu trin a'r triniaethau a ddarperir mewn ysbytai bob dydd wedi codi yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y mae gwelyau llawn.  Ar y llaw arall, nid yw nifer y nyrsys a gyflogir gan GIG Cymru wedi newid llawer ers o leiaf 2010.

Mewn geiriau eraill, **mae baich gwaith nyrsys yn cynyddu.**

Dychmygwch ei fod yn cymryd nifer penodol o staff nyrsio i ofalu am unigolyn sydd wedi torri clun.  Mae'n cymryd nifer *fwy* o staff nyrsio gyda lefel *uwch* o wybodaeth a sgiliau i ofalu am yr unigolyn hwnnw os ydyn nhw hefyd yn fregus yn gorfforol ac yn byw gyda dementia, clefyd siwgr a chyflwr ar y galon neu anhwylder anadlol.

Mae hyn yr un mor wir os ydyn nhw'n derbyn gofal gartref – sy'n gyffredinol yn cadw pobl yn fwy heini ac yn fwy diogel oddi wrth heintiau.  Mae byw ar eich pen eich hun neu mewn tai gwael yn cymhlethu pethau ymhellach.

Y gwirionedd syml yw nad yw'r nifer cyffredinol o nyrsys a gyflogir gan GIG Cymru yn adlewyrchu gwir angen y cleifion.

Gwnaethom holi ein haelodau beth ddylai Llywodraeth Cymru wneud i gynyddu'r gweithlu nyrsio.  Gwnaethon nhw gynnig dau ateb clir iawn.

## Cytunodd pawb bron fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio yn llawer caletach i **gadw** staff nyrsio presennol y GIG (96% o ymatebwyr), a **chynyddu'r** nifer o fyfyrwyr nyrsio (95%).

Sut ddylai Llywodraeth Cymru wneud hyn?  Wrth ystyried y mater, mae'n dibynnu ar y sector – a rhyw gymaint ynglŷn â lle'r ydych chi'n byw yng Nghymru.

# Er mwyn cadw ei nyrsys, mae **GIG Cymru** angen gweithlu mwy, sy'n cael ei dalu yn well.

4

Mewn arolwg RCN yn 2019,[ii] adroddodd 76% o nyrsys eu bod yn gweithio goramser o leiaf unwaith yr wythnos. Nid oes neb yn hoffi gweithio goramser, ond pan mae eich cyflogwr yn dibynnu ar *fwyafrif ei weithwyr* i wneud hynny – yn rhad ac am ddim, wythnos ar ôl wythnos, blwyddyn ar ôl blwyddyn – mae problem.

Gwnaethom holi ein haelodau beth oedd y peth unigol pwysicaf y gallai Llywodraeth Cymru wneud er mwyn i staff nyrsio barhau i weithio i'r GIG.

## Ar gyfer 44% o ymatebwyr, **cyflog uwch** yw'r ateb.

Mae'r RCN yn gofyn am godiad cyflog o 12.5% ar gyfer staff nyrsio ar gontractau Agenda dros Newid y GIG.


Mae'n anodd gorbwysleisio'r pwysau sydd ar staff nyrsio. Hyd yn oed cyn pandemig y COVID-19, roeddem yn amcangyfrif bod o leiaf 1,612 o swyddi nyrsys cofrestredig yn wag yn GIG Cymru. Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaethom ddarganfod bod 30% o aelodau RCN yn gweithio oriau hyd yn oed hirach nag yr oedden nhw cyn y pandemig.

## Dywed dwy ran o bump (41%) mai'r peth pwysicaf yw **cynyddu'r gweithlu er mwyn lleihau'r pwysau** ar staff.

### Gwahaniaethau Rhanbarthol

Yng **Ngorllewin De Cymru**, y prif ateb oedd yr angen am fwy o staff, a ddewiswyd gan 49% o'r ymatebwyr – mwy nag unrhyw ranbarth arall.

Ym mhob rhanbarth arall, y prif ateb oedd cyflog uwch, yn arbennig felly yn **Nwyrain De Cymru**, lle nodwyd hynny gan 53.3% o ymatebwyr



# Er mwyn cadw nyrsys mewn **cartrefi gofal**, mae cyflog uwch yn bwysig, ond mae parch yr un mor bwysig hefyd.

Mae cadw pobl yn iach mewn cartref gofal yn llawer haws pan mae nyrs gofrestredig yno, ac eto mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi darganfod bod darparwyr gofal a gomisiynwyd yn cyflogi 1,545 o nyrsys cofrestredig yn unig drwy Gymru. Wrth i'r boblogaeth heneiddio, bydd y galw am y staff hanfodol yma yn cynyddu, ond rydym yn eu colli – ac ni allwn ni fforddio gwneud hynny.

Gwnaethom holi ein haelodau beth sydd angen newid er mwyn i nyrsys ddewis parhau yn y sector cartrefi gofal.

Unwaith eto, y prif ateb yw **cyflog uwch**, gyda 38% o ymatebwyr yn ei osod fel y ffactor bwysicaf.

Yn ogystal â rheolaeth arferol o gyflyrau hirdymor, gall nyrsys mewn cartrefi gofal atal pobl rhag cael eu rhoi mewn ysbyty yn ddiangen drwy weithredu'r eiliad y mae cyflwr unigolyn yn dechrau dirywio. Yn ogystal, maen nhw'n helpu pobl i drosglwyddo o'r ysbyty yn ôl i gartref gofal.


Ar gyfer 32%, byddai **cydnabyddiaeth a pharch** ar gyfer swyddogaeth staff nyrsio mewn cartrefi gofal yn annog pobl i aros.

## Gwahaniaethau Rhanbarthol

Yng **Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**, daeth cydnabyddiaeth a pharch ar gyfer swyddogaeth y nyrs gofrestredig a'r staff nyrsio i'r brig gyda 37.2%.

Yn y cyfamser, unwaith eto, roedd y nifer o ymatebwyr a oedd yn nodi cyflog uwch fel y ffactor bwysicaf yn arbennig o uchel yn **Nwyrain De Cymru.**

Pa un o'r dewisiadau ydych chi'n meddwl yw'r pwysicaf er mwyn annog nyrsys a staff nyrsio i weithio yn y sector cartrefi gofal a pharhau i weithio ynddo? (RCN Cymru, 2020) **749 o ymatebion**



# Mae'n rhaid i fwrsariaeth y GIG fod yn rhan o unrhyw gynllun i **gynyddu'r gweithlu**, ochr yn ochr â chyflog uwch ac ehangu'r mynediad at radd nyrsio.

6

Rydym wedi trafod sut mae ein haelodau yn edrych ar y broblem o gadw nyrsys. Beth am addysg a recriwtio?

Mae hyfforddi fel nyrs gofrestredig yn cymryd amser. Mae hyfforddi i fod yn nyrs gofrestredig *brofiadol* yn cymryd hyd yn oed mwy o amser. Y cam cyntaf yw astudio am radd israddedig sy'n gofyn llawer a 2,300 o oriau yn astudio ynghyd â 2,300 o oriau o ymarfer clinigol di-dâl. Ychydig o le sydd yn y rhaglen am gyfer gweithio yn rhan-amser. Er hynny, mae'r radd yn hanfodol ar gyfer datblygu'r sgiliau clinigol a deallusol allweddol y mae nyrsys eu hangen.

Gwnaethom holi sut orau y gallai Llywodraeth Cymru annog mwy o bobl i ddod yn nyrsys cofrestredig.

## Mae bron i un rhan o dair (31%) yn cytuno bod yn rhaid i GIG Cymru gynnig **bwrsariaeth nad yw'n ad-daladwy** i fyfyrwyr nyrsio.

Ond os ydym o ddifrif ynglŷn â denu *mwy* o bobl i'r proffesiwn nyrsio, mae angen gwneud mwy.

## Ar gyfer 29% o ymatebwyr, y cam unigol pwysicaf y gallai cyflogwyr ei gymryd i gynyddu'r gweithlu yw **talu mwy i nyrsys**.

Ar yr un pryd, nid yw pawb yn dymuno canolbwyntio yn gyfan gwbl ar addysg uwch am dair blynedd – ac ni all pawb wneud hynny. Mae rhai byrddau iechyd yng Nghymru eisoes yn cynnig nifer cyfyngedig o brentisiaethau graddau nyrsio i bobl sydd *eisoes* yn cael eu cyflogi fel cynorthwywyr gofal iechyd, a'u galluogi nhw i gwblhau'r radd wrth iddyn nhw weithio.

## Ar gyfer 28%, yr ateb yw rhaglen **brentisiaeth** genedlaethol er mwyn helpu pobl i ddod i mewn i'r proffesiwn nyrsio.

Yr hiraf yr ydym yn disgwyl, y caletaf y bydd i wneud rhywbeth amdano – a'r hiraf y bydd yn ei gymryd.

# Dylai hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gweithgareddau corfforol fod y prif flaenoriaethau **iechyd cyhoeddus** ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru.

7

Ni ellir osgoi bob salwch, ond drwy helpu pobl i fyw bywydau iachach, gallwn ni *leihau* salwch y gellir ei osgoi a mynd i'r ysbyty yn ddiangen.

Gwnaethom holi ein haelodau beth oedden nhw'n feddwl yr oedd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ganolbwyntio arno er mwyn hyrwyddo iechyd cyhoeddus.


## Roedd gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl wedi'i osod uchaf, ac roedd yn cael ei ddilyn gan weithgareddau corfforol – a oedd wedi'i osod yn uwch hyd yn oed nag ymdrin â chamdriniaeth alcohol a sylweddau.

Mae'r rhan fwyaf o bobl eisiau bod yn iach! Ond unigolion yw pobl. Drwy hwyluso bawb i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo *eu* hiechyd – p'un a yw'n buddsoddi mewn cynllun beicio i'r gwaith, neu fynediad at doiledau cyhoeddus at wneud mannau gwyrdd yn hygyrch i bawb – gallwn ni gael cymdeithas sy'n iachach, hapusach a mwy cyfartal.

Credwn y dylai nyrsio fod wrth galon lleihau effaith salwch, hyrwyddo iechyd ynghyd â helpu pobl i weithredu yn y gwaith ac wrth chwarae.

Mae'n rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi mewn gwella mynediad at therapïau seicolegol, cynyddu'r niferoedd o fyfyrwyr nyrsio iechyd meddwl ynghyd â sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at gyfleoedd er mwyn gwella eu hiechyd meddwl a'u hiechyd corfforol.

Cwestiwn: Edrychwch ar y meysydd canlynol o bolisi iechyd cyhoeddus a gosodwch nhw yn nhrefn eu pwysigrwydd ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru, o 1 (pwysicaf) at 7 (lleiaf pwysig). (RCN Cymru, 2020). **723 o ymatebion.**




## Gwybodaeth ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol

Yr RCN yw'r sefydliad a'r undeb llafur proffesiynol mwyaf yn y byd ar gyfer nyrsys, sy'n cynrychioli oddeutu 435,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cefnogi gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae oddeutu dwy ran o dair o'n haelodau yn gweithio yn y gymuned.

Mae'r RCN yn sefydliad drwy'r DU gyfan, gyda'i Fyrddau Cenedlaethol ei hun dros Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Atodiad: Y Fethodoleg

Cynhaliwyd arolwg aelodau RCN Cymru 2020 ddwywaith: unwaith ym mis Mawrth 2020 ac unwaith eto rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020.

O achos y pwysau na welwyd mo'i debyg o'r blaen ar y gweithlu o don gyntaf pandemig y COVID-19, derbyniwyd 193 o ymatebion yn unig ym mis Mawrth. Wrth i'r pwysau ddechrau llacio ychydig, ailgynhaliwyd yr arolwg gan RCN o 1af Medi 2020 tan 30ain Tachwedd 2020. Derbyniwyd 560 o ymatebion y gellid eu defnyddio.

Mae'r canlyniadau o'r ddau arolwg wedi cael eu huno, gan roi cyfanswm o 753 o ymatebion.


Roedd gofyn i'r ymatebwyr ddarparu eu rhif aelodaeth RCN. Roedd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dau ddiben:

- sicrhau bod yr ymatebwyr yn aelodau o'r RCN,
- gwahardd ymatebion dyblyg.

Unwaith yr oedd aelod wedi cwblhau'r arolwg unwaith, roedd unrhyw ymdrechion pellach yn cael eu gwrthod. Mae hyn yn cynnwys aelodau a gwblhaodd yr arolwg ym mis Mawrth ac yna wedi ymdrechu unwaith eto yn yr hydref. Felly, roedd yr ymatebion y gellid eu defnyddio yn cynrychioli 753 o aelodau unigryw RCN Cymru.

Cafodd y data ei wneud yn ddi-enw cyn cynnal dadansoddiad dynol.

Dadansoddiad yn ôl Rhanbarth (RCN Cymru, 2020)
***Cyfanswm y Gyfradd Ymateb: 753***




---

[i] Rafferty, AM., Clarke, SP., Coles, J., Ball, J., James, P., McKee, M., ac Aiken, LH. (2007). Outcomes of variation in hospital nurse staffing in English hospitals: cross-sectional analysis of survey data and discharge records. *Int J Nurs Stud, 44*(2), 175-82. Ar gael yn https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/17064706/

[ii] Royal College of Nursing. (2019). *Employment Survey 2019.* Llundain: Coleg Nyrsio Brenhinol. Ar gael yn https://www.rcn.org.uk/professional-development/publications/pub-007927